

YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

Mae Sir Gaerfyrddin yn gymuned lle mae plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin a lle caiff dysgwyr o bob oed gefnogaeth i wireddu'u potensial addysgol llawn.

Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ac Atal.

(2016)

1. Cyflwyniad
2. Ein Hymrwymiad
3. Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
4. Sut rydyn ni'n gweithio gyda Theuluoedd
5. Gwasanaethau Atal
6. Derbyn Gofal
7. I gloi

Pdg/pa

1. Cyflwyniad.

Teuluoedd, ar ba ffurf bynnag y maent, yw sail ein cymdeithas. Dyma'r ffactor pwysicaf o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc yn hapus, iach a diogel.

Mae'r strategaeth hon yn adolygu ein dogfen gyntaf a gynhyrchwyd yn 2013. Fel y ddogfen honno, mae'n dod â meysydd gwaith cyfredol ynghyd ac mae'n amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda

rhieni a gyda'n gilydd (o fewn y Gwasanaethau Plant) a chyda asiantaethau sy'n bartneriaid i wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion pob teulu.

Fel Awdurdod Lleol, rydym yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol. Yn genedlaethol, cafodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n sail i fframwaith statudol newydd o ran gofal cymdeithasol yng Nghymru, ei gweithredu ym mis Ebrill 2016. Nod y Ddeddf yw trawsnewid y ffordd y caiff Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl ac annog canolbwyntio o'r newydd ar atal ac ar ymyrryd cynnar. Gwneir hyn drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffordd sy'n cefnogi teuluoedd pan ac fel y mae angen hynny arnynt.

Mae digon o dystiolaeth o blaid gwasanaethau atal ac ymyrryd cynnar, ac mae cynnig help i blant a theuluoedd yn gallu atal problemau mwy cymhleth, sydd wedi gwreiddio'n ddwfn, rhag ymddangos. Rydym wastad wedi credu y bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau canlyniadau gwell yn y tymor hwy ac y bydd drwy hynny yn amddiffyn plant ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen iddynt Dderbyn Gofal.

2. Ein hymrwymiad

Prif amcan Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ac Atal Sir Gaerfyrddin yw nodi sut y byddwn yn mynd ati i ddarparu a datblygu gwasanaethau ar gyfer plant, teuluoedd a phobl ifanc; a chanolbwyntio ar sut mae sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddyn nhw.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gynnal bywyd teuluol a bydd bob amser yn ymdrechu i alluogi plant a phobl ifanc i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau eu hunain. Mae gennym ffocws clir ar gynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd, lle bynnag y mae'n ddiogel iddynt wneud hynny, a lleihau'r angen i blant dderbyn gofal. Dyna mae teuluoedd ei eisiau, a chredwn mai dyna fydd yn sicrhau'r canlyniad gorau i'r mwyafrif o blant. Dim ond os mai hynny yw'r opsiwn gorau neu'r unig opsiwn y dylai plant dderbyn gofal. Nod cyffredinol y strategaeth hon yw sicrhau bod plant y mae modd eu cefnogi yn eu teuluoedd eu hunain yn aros yno. Y ffordd orau o wireddu hyn yw drwy weithio ochr yn ochr â theuluoedd; cytuno ar y canlyniadau y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i'w gwireddu a chydnabod eu bod nhw'n allweddol er mwyn gwireddu'r canlyniadau hynny; defnyddio'u cryfderau ac adeiladu arnynt; a goresgyn unrhyw rwystrau drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ataliol i helpu i ddiwallu'u hanghenion unigol.

2.1 Ein Nodau

- Sicrhau bod pob rhiant a gofalwr yn meddu ar y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arno/arni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w blentyn/phlentyn.

- Darparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n hybu cydberthnasau teuluol iach ac yn atal teuluoedd rhag chwalu.
- Sicrhau bod gan yr holl blant, pobl ifanc, rhieni ac oedolion eraill fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth drwy gydol bywydau eu plant a'u pobl ifanc.
- Sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth i ofalu am eu plant a'u galluogi nhw i dyfu lan i gyrraedd eu llawn botensial.
- Sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel yn eu cartrefi ac osgoi'r angen iddynt dderbyn gofal.
- Sicrhau bod ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal ar draws y gwasanaethau plant i gefnogi plant mewn angen a'u teuluoedd i roi pob cyfle iddynt i aros gyda'i gilydd.
- Hyrwyddo amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol y gall yr holl rieni fanteisio arnynt, gwasanaethau sydd wedi'u targedu at deuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol a gwasanaethau arbenigol i'r rheiny â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Parhau i ddatblygu a darparu cymorth sy'n hyrwyddo ac yn galluogi plant i fyw gartref neu o fewn y rhwydwaith teuluol, lle mae'n ddiogel gwneud hynny.
- Rheoli risg yn hyderus a darparu cymorth ar gyrion gofal i wneud yn siŵr fod y plant iawn yn dod i mewn i ofal ar yr adeg iawn.
- Darparu cymorth a gwasanaethau i alluogi plant i ddychwelyd adref lle bynnag y mae hynny'n bosibl; fel arall, darparu dyfodol parhaol o fewn y teulu estynedig; neu, lle mae gofyn; mewn teulu arall.

2.2 Ein Hegwyddorion


Yn sail i'n dull gweithredu mae ymrwymiad i hawliau plant, fel y'u nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel y sail i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mynegir hyn yn saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef bod pob plentyn a pherson ifanc:

- Yn cael dechrau'n deg mewn bywyd.
- Yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg a dysgu.
- Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn cynnwys rhyddid oddi wrth gamdriniaeth, erlid a chamfanteisio.
- Yn cael y cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

- Yn cael ei drin â pharch, yn cael clust i wrando arno, gan gydnabod ei hil a'i hunaniaeth ddiwylliannol.
- Yn cael byw mewn cartref diogel ac mewn cymuned sy'n cefnogi ei les corfforol ac emosiynol.
- Yn peidio â dioddef anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r egwyddorion craidd hyn yn dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau; nhw yw'r sail ar gyfer y strategaeth hon a'r canlyniadau yr ydym am eu gweld. Ni ddylid edrych ar y strategaeth ar ei phen ei hun; mae'n cyd-fynd yn agos â'n Strategaeth yn Erbyn Tlodi, sy'n cymhell dull gweithredu i'r awdurdod cyfan, yn gweithio gyda'n gilydd ar draws yr holl feysydd gwasanaeth i sicrhau newid cadarnhaol a gwella a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i holl blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin.

2.3 Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd



Caiff gwasanaethau plant a theuluoedd eu trefnu o amgylch pedair haen o angen. Mae Haen 1 yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i bob plentyn a theulu e.e. addysg, iechyd a hamdden. Ar Haenau 2 a 3, ceir gwasanaethau i blant a theuluoedd y mae angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt. Bydd Haen 4 yn cynnwys gwasanaethau i deuluoedd a phlant mewn argyfwng, lle mae angen ymyrraeth statudol i helpu i gynnal y teulu. Efallai y bydd angen i deuluoedd fanteisio ar nifer o wasanaethau a gallant symud rhwng dau ben y model, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ac ar effeithiolrwydd y cymorth. Bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn defnyddio haenau 1 a 2.

3. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw sail y fframwaith statudol newydd i ofal cymdeithasol yng Nghymru. Caiff ei gweithredu ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol i wella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalmwyr y mae angen cymorth arnynt. Bydd yn trawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt.

Mae'r Ddeddf hefyd yn annog ffocws newydd ar *atal ac ymyrraeth gynnar*. Mae'n cynnwys dyletswydd i asesu'r angen am wasanaethau ataliol, a'r math o wasanaethau ataliol. Bydd asesu anghenion y boblogaeth yn bwysig - bydd yn darparu ac yn cyfrannu at sylfaen tystiolaeth o ran datblygu gwasanaethau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gymryd camau i atal a lleihau angen pobl yn eu hardal am ofal a chymorth. Mae hefyd yn rhagdybio y bydd newidiadau yn y ffordd y caiff teuluoedd help – dim ond y teuluoedd hynny y mae angen asesiad neu gynllun seiliedig ar ofal cymdeithasol fydd yn cael ymyrraeth statudol. Bydd cymorth teuluol mwy cymhleth yn cael ei ddarparu gan wasanaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd – y sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a'r rhai sy'n dod o dan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mae nifer cynyddol o blant anabl yn y gymuned; mae'r diagnosis o anabledd wedi cynyddu (e.e. awtistiaeth) felly mae mwy o blant yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth fel plant anabl a chanddynt felly hawl i wasanaethau, ac mae'r eiriolaeth i deuluoedd wedi cynyddu fel bod teuluoedd yn fwy ymwybodol o'u hawliau. Ers 2004 mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gyfrifol am ddarparu taliadau uniongyrchol i rieni a gofalmwyr plant anabl er mwyn iddynt brynu gwasanaethau'n uniongyrchol ar gyfer eu plant. Taliad Uniongyrchol yw lle mae rhiant/gofalwr yn defnyddio'r taliad i brynu gwasanaeth a gâi ei ddarparu yn dilyn asesiad a gall fod yn ffordd gost effeithiol o ddiwallu angen a chynnal plant yn y gymuned.

4. Sut rydyn ni'n gweithio gyda Theuluoedd.

Rydym yn credu mewn model gweithio gyda theuluoedd sydd wedi'i seilio ar gryfderau. Gall pob teulu fod yn ddyfeisgar ac yn wydn wrth wynebu helbulon. Dylai perthynas y gweithiwr cymdeithasol/gweithiwr cymorth gyda'r plentyn a'r teulu fod yn un o gydweithio a chydgyhyrchu; yn cydnabod bod pobl yn ddyfeisgar a bod y rhan fwyaf o bobl â'r gallu i ddatrys eu problemau eu hunain, gyda chymorth. Dylid darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd drwy'r dull ymyrryd sy'n tarfu leiaf arnynt, cyhyd â bo hynny'n cyd-fynd â diogelu a hyrwyddo lles plentyn. Dylai ymyrraeth alluogi teuluoedd i ddod yn fwy gwydn yn hytrach na hyrwyddo dibyniaeth, ac mae cynnwys plant a theuluoedd wrth ddatblygu, darparu, cynllunio ac adolygu gwasanaethau yn

sylyfaenol yn hyn oll, ynghyd â gwaith amlasiantaethol effeithiol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu amrywiaeth eang o wasanaethau sydd ar gael i atal yr angen i blant dderbyn gofal. Mae'r gwasanaeth hyn wedi'u seilio ar drefn sy'n hyrwyddo adnabod cynnar ac ymyrryd cynnar.

4.1 Llofnod Dysgu fel Teulu

Rhaglen yw'r Llofnod Dysgu fel Teulu sy'n cael ei chyflwyno i'n hysgolion. Fe'i defnyddir i ddarparu llinell sylfaen neu feincnod i deuluoedd er mwyn iddynt ddeall eu cryfderau dysgu a'u heriau. Mae'n rhaglen unigryw, sy'n ennyn cyfranogiad, ac mae wedi'i bwriadu i helpu i wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad, yn arbennig gyda theuluoedd anodd eu cyrraedd a dysgwyr sydd wedi ymddieithrio.

Mae'n darparu darlun o gapasiti dysgu teulu, yn cynnwys ble mae angen cymorth ar deuluoedd i gefnogi dysgu, ble mae ganddynt y capasiti i ddysgu mwy drostynt eu hunain ac, yn dyngedfennol, mae'n nodi dysgwyr a allai ymddieithrio yn y dyfodol a'u teuluoedd, a hynny'n gynnar yn y broses. Y canlyniadau allweddol yw:

Data i helpu i dargedu adnoddau ac ymyriadau'n effeithiol i sicrhau bod y cymorth iawn yn mynd i'r teuluoedd iawn

Cael teuluoedd i ymwneud mwy â'r broses a theimlo mwy o berchenogaeth drosti, gan arwain at ymyrryd a chanlyniadau mwy effeithiol

Cydluniant cymdeithasol cryfach drwy ymestyn cyrraedd yr ysgol a chynnwys pob aelod o'r teulu

4.2 Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yw'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'r pwyslais ar drawsnewid yr opsiynau sydd ar gael i'r unigolyn, yn hytrach nag ar ei newid ef neu hi. Mae wedi'i seilio ar egwyddorion integreiddio/cynhwysiant cymdeithasol. Mae pum maes allweddol yn bwysig i lywio ansawdd bywyd pobl, felly dylai gwasanaethau gael eu barnu yn ôl: i ba raddau y maent yn galluogi pobl i rannu lleoedd cyffredin; gwneud dewisiadau; datblygu gallu; cael eu trin â pharch; a bod â rôl gymdeithasol werthfawr. Mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u ddylunio'n benodol i 'rymuso' pobl, i gefnogi'u cynhwysiant cymdeithasol yn uniongyrchol.

4.3 Y Tîm o Amgylch y Teulu

Mae'n haws cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd os ydym yn meddwl am anghenion y plentyn yng nghyd-destun ei deulu, ei ysgol a'i gymuned. Nod y Tîm o Amgylch y Teulu yn Sir Gaerfyrddin yw cynyddu presenoldeb yn yr ysgol, ymwneud cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol drwy ddull gweithredu wedi'i seilio ar 'y teulu cyfan'. Mae'r holl weithwyr proffesiynol/asiantaethau allweddol yn gweithio gyda'r teulu yn ôl cynllun cytunedig, gan rannu gwybodaeth a darparu cymorth a helpu'r teulu i gyrchu at wasanaethau cyffredinol; a hefyd lleihau NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), lleihau nifer y rhai sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, a gostwng nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb

gymwysterau. Bydd cam nesaf y rhaglen yn ymestyn y ddarpariaeth gwasanaethau o blant 5-16 oed i gynnwys cymorth i blant o'u geni hyd at 5 oed, ac i oedolion ifanc 16-25 oed.

4.4 Gwaith Cymdeithasol

Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda theuluoedd lle nodwyd bod “angen amddiffyn” plant; ac yn aml lle mae posibilrwydd y bydd y plant hynny'n gorfod derbyn gofal. Maen nhw'n gweithio i nodi ac adeiladu ar gryfderau'r teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw, ac yn ceisio datrys y problemau a allai arwain at chwalfa yn y teulu. Mae ein gweithwyr cymdeithasol yn cynnal asesiadau cymesur ac yn defnyddio dau fodel ymarfer penodol.

Mae'r timau gwaith cymdeithasol gofal plant tymor hir yn y broses o roi ffordd systemig ar waith o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Y nod yw gostwng nifer y plant y mae angen eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant neu eu derbyn i ofal, ac mae'r dull o weithredu wedi'i seilio ar fodel Hackney. Mae'n ffordd o weithio sy'n galluogi gweithwyr cymdeithasol i dreulio mwy o amser yn ymyrryd yn uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar atebion, ac mae'n gwahanu tasgau gweinyddol a thasgau cefnogi. Caiff pob tîm ei rannu'n bodiau bach integredig amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol, gweithiwr cymdeithasol, seicolegydd addysg, gweithiwr cymorth i deuluoedd, ynghyd â Chydgyssylltydd Uned. Mae'r dull systemig hwn yn gyfannol ac wedi'i seilio ar ymholi gwerthfawrogol, sy'n ceisio gweithio gyda theuluoedd i ddatblygu cryfderau a fydd yn golygu bod modd diwallu anghenion plant yn effeithiol. Mae diogelwch plant yn ganolog i'r dull hwn felly caiff risgiau a chryfderau eu hasesu'n rheolaidd i gloriannu effaith y rhianta ar bob plentyn. Mae'r dull yn elfen holl-bwysig o ran cefnogi ein hymdrechion i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a gostwng nifer y plant sy'n gorfod derbyn gofal.

O fewn ein timau asesu rydym yn datblygu'r model Arwyddion Diogelwch. Mae sefydlu perthnasoedd gwaith a phartneriaethau adeiladol rhwng gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu, a rhwng y gweithwyr proffesiynol eu hunain, yn cael ei ystyried yn dyngedfennol. Un nodwedd allweddol yw pwysigrwydd nodi a gosod amcanion gyda theuluoedd fel rhan o gynllun newid a datblygu, gan ddefnyddio iaith gyfarwydd i deuluoedd, hawdd ei deall, yn hytrach na iaith broffesiynol, a nodi rhwydweithiau diogelwch ehangach, er enghraifft ffrindiau, teuluoedd, athrawon, cymdogion ac ati sy'n chwarae rhan neu a allai chwarae rhan yn gwella'r canlyniadau i blant a theuluoedd.

Pam defnyddio dau fodel? Mewn gwirionedd, mae'r ddau fodel yn weddol debyg. Maent wedi'u seilio ar dystiolaeth ac maent yn rhannu elfennau allweddol fel pwyslais ar berthynas adeiladol rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r teulu; lle mae'r gweithiwr yn ceisio meithrin perthynas gydwethredu gyda'r teulu ar sail partneriaeth, heb fod yn nawddogol. Canolbwyntir ar gryfderau'r teulu a'r plentyn wrth asesu a chynllunio, ond ceisir hefyd gwrthbwyso hyn drwy adnabod risgiau a

pheryglon a gosod amcanion gyda theuluoedd fel rhan o gynllun newid a datblygu, y mae modd mynd yn ôl ato er mwyn monitro cynnydd. Credwn mai Arwyddion Diogelwch yw'r model gorau ar gyfer yr hyn sydd, mewn llawer o achosion, yn ymyrryd â ffocws dros dymor byr; tra mae'r model systemig yn cynnig mwy wrth ddelio â'r achosion tymor hir, mwy cymhleth.

4.5 Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Mae Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol a Chyn Achos wedi'u bwriadu i atal plant rhag mynd i ofal drwy eistedd i lawr gyda rhieni a theuluoedd a chael sgysiau agored a gonest ynglŷn â chadw plant o fewn y teulu. Ar y cyd â'u cynghorydd cyfreithiol rydym yn nodi beth yw'r problemau, a sut y gellir cefnogi teuluoedd er mwyn eu datrys heb yr angen i'r awdurdod lleol gychwyn achos ffurfiol.

Lle mae teulu'n ei chael yn anodd ymdopi neu wedi cyrraedd pwynt o argyfwng, rydym yn ystyried a oes capasiti yn y teulu estynedig neu'r rhwydwaith perthnasau i gefnogi'r rhieni neu i ddarparu gofal i'r plentyn neu'r person ifanc. Drwy hwyluso trafodaeth agored yn gynnar, gall y cyfarfodydd hyn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd neu nodi aelodau o'r teulu estynedig neu'r rhwydwaith perthnasau sydd â chapasiti i ddarparu cymorth.

5. Gwasanaethau Ataliol

Mae gwasanaethau ataliol yn helpu i feithrin gwytnwch a chryfhau ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, er mwyn cynyddu'u gallu i ymateb i sialensiau a'u goresgyn. Wrth geisio newid ein ffocws o ran targedu adnoddau, oddi wrth ymyrryd mewn argyfwng i atal ac ymyrryd cynnar, mae'n dyngedfennol nodi angen ar y cyfle cyntaf posibl a darparu mynediad cyflym a rhwydd at gymorth. Y gwasanaethau isod yw'r ymyriadau a dargedir.

5.1 Teuluoedd yn Gyntaf

Rydym wedi cynnal ymarferiad mawr i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. Cafodd y gwasanaethau eu modelu a'u cynllunio mewn ffordd rydyn ni'n credu fydd nid yn unig yn gwella'r canlyniadau i blant a theuluoedd ond hefyd yn darparu gwerth am arian ar adeg pan fo craffu a herio parhaus ar adnoddau.

Mae Canolfannau Plant a Chanolfannau Plant Integredig yn cynnig cymorth i rieni a gofalwyr i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant; maen nhw'n cynnig sesiynau blynyddoedd cynnar; clybiau ar ôl yr ysgol; a sesiynau chwarae teuluol.

Darperir rhaglenni rhianta.

Cefnogaeth i blant a phobl ifanc y mae cam-drin yn y cartref yn effeithio arnynt.

Cefnogaeth i deuluoedd bregus ag anghenion cymhleth i'w helpu gyda pherthnasoedd teuluol anodd.

Chymorth rhianta arbenigol i rieni sydd â phlentyn anabl 0-12 oed y mae angen help ychwanegol arnynt i ymdopi ag anghenion eu plentyn.

Grwpiau i bobl ifanc 11-19 oed ag awtistiaeth, Syndrom Asperger, ADHD neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae gwasanaethau ieuencid wedi'u targedu yn chwarae rôl ganolog i bobl ifanc mewn angen, y rhai sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, drwy ddarparu cyngor a chymorth, mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden a chwaraeon, a hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu. Mae gweithwyr ieuencid mewn ysgolion yn gweithio gyda phobl ifanc 14-16 oed y mae eu presenoldeb yn yr ysgol yn wael neu y mae perygl iddynt adael heb gymwysterau cydnabyddedig. Hefyd, mae gweithwyr ieuencid yn darparu cymorth y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau, tra mae gweithwyr ieuencid datgysylltiedig yn cynnig cymorth dwys i bobl ifanc a theuluoedd a nodwyd fel y rhai sy'n fwyaf eu hangen. Mae prosiect Camau Enfawr yn bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Ieuencid a'r gwasanaethau plant i gefnogi pobl ifanc 11+ oed a'u teuluoedd er mwyn lleddfu straen a phwysau ar deulu drwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau a, thrwy hynny, gynnig egwyl fer fel math gwahanol o ofal seibiant.

5.2 Dechrau'n Deg

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth dwys a gwasanaethau i blant 0-3 oed a'u teuluoedd sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Ymysg y prif elfennau mae 12.5 awr o ofal plant yr wythnos yn ystod y tymor, gwasanaeth dwys gan ymwelydd iechyd, rhaglen sgiliau sylfaenol, a chymorth rhianta. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen ar waith mewn 17 ardal yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n cael ei hehangu dros 3 blynedd – bydd hynny'n golygu dyblu maint y gwasanaeth gyda chyfanswm o 1654 o deuluoedd yn cael eu targedu i gael cymorth yn Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2015. Mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg hawl i ofal plant rhan-amser rhad ac am ddim am ddwy awr a hanner y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, am 42 wythnos y flwyddyn. Caiff y gofal plant ei ddarparu drwy feithrinfeydd dydd preifat a gwirfoddol a rhai'r awdurdod lleol.

Mae Athro Blynyddoedd Cynnar Dechrau'n Deg yn gweithio gyda sefydliadau gofal plant i ddatblygu cynlluniau a gweithgareddau i ysgogi datblygiad plant dwy oed a sicrhau gofal plant safonol.

Mae Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg yn ymweld yn amlach â theuluoedd. O'r adeg y caiff babi ei eni, caiff pob teulu Dechrau'n Deg gymorth i ddatblygu a sefydlu cwlwm agos gyda'r babi, gan gefnogi'r fam yn arbennig o ran ei hiechyd emosiynol a meddyliol.

Gwasanaeth Bydwreigiaeth Arbenigol i deuluoedd sy'n fwy agored i niwed.

Rhaglen lleferydd ac iaith chwe wythnos i blant y nodwyd oedi yn eu datblygiad neu'u hiaith.

5.3 Gwasanaeth Lles Addysg a Gofalwyr Ifanc

Mae cadw plant a phobl ifanc yn yr ysgol yn ffactor achosol o bwys er mwyn eu hatal rhag mynd i ofal. Gall diffyg presenoldeb yn yr ysgol neu waharddiad o'r ysgol fod yn sbardun terfynol sy'n chwalu bywyd cartref a gall arwain yn gyflym at gais am lety. Mae dadrithiad ac ymddieithrio yn yr ysgol hefyd yn ffactorau sy'n arwain at ddirywiad pellach mewn ymddygiad a gall hynny hefyd arwain at chwalu perthnasoedd gartref. Modelwyd ein Gwasanaeth Lles Addysg fel ei fod yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion sy'n gallu darparu cymorth ac ymyrraeth pan fydd achosion yn arbennig o gymhleth.

Mae gofawyr ifanc yn dod o dan y tîm hwn oherwydd, yn aml, caiff eu hanghenion eu nodi yn yr ysgol. Mae gofawyr ifanc yn aml yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ymarferol a/neu emosiynol y byddem fel arfer yn disgwyl gweld oedolyn yn ymgymryd â nhw. Mae'r tasgau a gyflawnir yn amrywio yn ôl natur y salwch neu'r anabledd, yn cynnwys pethau fel rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Mae amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ar gael i Ofalwyr Ifanc drwy ein gwasanaeth gofawyr ifanc, yn cynnwys cymorth emosiynol a chwmsela, ynghyd ag amryw o weithgareddau i'w galluogi i gymryd seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu.

5.4 Seibiant / Egwyliau Byr

Mae darparu seibiant yn ganolog o ran atal yr angen i blant orfod derbyn gofal gan ei fod yn darparu cymorth tymor byr i deuluoedd ar adegau o straen. Mae seibiant o'r fath yn cynnwys gofal dydd, darpariaeth yn ystod y gwyliau neu ar ôl yr ysgol, ynghyd â seibiant dros nos ac egwyliau byr. Yn arbennig, mae darparu gofal seibiant i blant ag anableddau yn rhan allweddol o'n gwasanaeth atal. Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau egwyl fer a chymorth, sy'n cynnwys dwy ganolfan seibiant breswyl ac amrywiaeth gwasanaethau sy'n ehangu'n barhaus – mae'r rhain yn cynnwys rhannu'r gofal, cymorth i deuluoedd, gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a gwasanaethau maethu mewnol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn darparu mwy o ofal seibiant i blant nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru ac mae'r lefelau hynny wedi codi wrth inni wneud gwell defnydd o'n canolfannau seibiant ac ehangu ein cyfleuster maethu a Chyswllt teuluol mewnol. Mae'n ganolog i'n strategaeth i atal plant rhag mynd i ofal tymor hir. Y bwriad yw parhau â'r lefel hon o wasanaeth a darpariaeth gan fod y lefel isel o blant ag anableddau sy'n derbyn gofal yn destament i'r gwasanaeth hwn.

5.5 Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau

Mae'n darparu cymorth ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion gan weithio mewn modd integredig a chyfannol gyda'r teulu, drwy amryw o wasanaethau ar gyfer oedolion, plant ac aelodau o'r teulu y mae eu defnydd nhw eu hunain, neu ddefnydd rhywun arall, o gyffuriau neu alcohol yn effeithio arnynt. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm gwaith cymdeithasol arbenigol sy'n gweithio mewn partneriaeth agos â'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd, y Tîm Troseddau Ieuenctid, a

gwasanaethau statudol ac anstatudol lleol eraill i sicrhau bod plant y mae camddefnydd eu rhieni o sylweddau yn effeithio arnynt yn cael yr help a'r cymorth y mae ei angen arnynt, a hefyd i'w hatal rhag gorfod derbyn gofal. Darperir arian i gefnogi peth o'r gwaith a wneir o fewn y gwasanaeth gofaluwr ifanc.

5.6 Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd

Mae ein Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd yn darparu cymorth i deuluoedd bregus sydd ag anghenion cymhleth, megis rhieni'n camddefnyddio sylweddau, lle mae perygl o niwed i'r plentyn/plant, ac y gallai fel arall olygu bod angen iddynt fynd i ofal neu gael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r tîm yn un amlasiantaethol sy'n gweithio gyda theuluoedd, yn darparu cymorth dwys gan fabwysiadu ymyriadau damcaniaethol/ymarferol penodol, wedi'u cyfyngu i gyfnod penodol, gan ganolbwyntio ar gryfderau ac ar gynllunio cyrchnodau er mwyn ateb anghenion penodol y teuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

5.7 Gweithwyr Cam-drin yn y Cartref

Mae a wnelo nifer fawr o'r atgyfeiriadau i'r adran â digwyddiadau yn y cartref. Er mwyn darparu cymorth priodol ar y pwynt atgyfeirio, mae gennym weithwyr arbenigol cam-drin yn y cartref. Gall gweithwyr atgyfeirio teuluoedd at y gweithwyr arbenigol hyn os ydynt yn pryderu ynglŷn â'r gofal a'r amddiffyniad a gaiff plant, a chynnig cymorth i oedolion yn y teulu sy'n dioddef camdriniaeth o'r fath. Darperir cymorth gan y gweithwyr hyn a chaiff cynllun ei lunio i geisio atal unrhyw ddigwyddiadau pellach. Mae'r gweithwyr hyn wedi'u lleoli yn ein gwasanaeth Dechrau'n Deg a'n timau Gwaith Cymdeithasol.

Hefyd, mae ystod eang o wasanaethau'n cael eu darparu drwy Cymorth i Fenywod a Threshold (Cymorth i Fenywod Llanelli gynt). Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r rhai sy'n cam-drin yn y cartref, a gwaith uniongyrchol gyda phlant ac oedolion sydd wedi cael profiad o gam-drin yn y cartref.

5.8 Lleoliadau Rhiant a Babi

Mae'r model cymunedol o ran lleoliadau Rhiant a Babi wedi bod yn weithredol er mis Mai 2013. Ei brif amcan yw galluogi babanod i aros gyda'u rheini lle bynnag y mae hynny'n bosibl, a'u hatal rhag dod i ofal yr awdurdod lleol. Cynhelir asesiad o fewn terfynau amser mewn lleoliad yn y gymuned, a darperir cymorth. Caiff y cynnydd ei fonitro a'i adolygu a bydd risg yn cael ei asesu'n barhaus er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Mae fframwaith clir i'r asesiadau a'r drefn yw gweithio gyda'r rhiant/rhieni am gyfnod byr i asesu'u hanghenion cymorth a nodi un ai y gallant ddychwelyd adref gyda chymorth neu, os nad yw hynny'n bosibl, symud i ddiogelu'r babi un ai gyda theulu estynedig neu gyda rhieni mabwysiadu.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried model preswyl a allai weithredu fel opsiwn amgen i rieni os ydynt yn byw mewn amgylchedd teulu nad yw efallai yn addas neu'n angenrheidiol; neu fel rhan o ddychwelyd yn raddol i fyw'n annibynnol. Mae opsiwn preswyl yn caniatáu ar gyfer mwy o annibyniaeth a dychwelyd i sefyllfa fwy "normal" yn y gymuned.

5.9 Cymorth i bobl ifanc 16/17 oed

Grŵp allweddol ar gyrion gofal yw pobl ifanc 16/17 oed sy'n ddigartref. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn gellir cefnogi'r bobl ifanc i ddychwelyd adref, ond weithiau nid yw hyn yn bosibl ac nid oes ganddynt le addas i fyw ynddo. Mae maethu yn opsiwn; ond byddai'n well gan lawer fynd i leoliadau llai cyfyngol fel llety â chymorth. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn yr adran Tai i wella'r opsiynau llety i bobl ifanc (hyd at 24 oed), yn cynnwys nifer o welyau asesu, ac i ehangu'r cynllun Llety â Chymorth.

6. Derbyn Gofal

Dim ond lle mai hynny yw'r opsiwn gorau neu'r unig opsiwn er mwyn diogelu neu hyrwyddo lles plant y dylent fynd i ofal. Mae angen inni sicrhau bod y plant iawn yn dod i ofal ar yr adeg iawn ac yn y lleoliad iawn, a'u rhwystro rhag dod i ofal yn ddianghenraid. Drwy wneud hyn byddwn yn cyfyngu ar leoliadau drwy'r llwybr argyfwng i ddim ond y rheini sy'n argyfyngau gwirioneddol, nad oedd modd eu rhagweld na'u hatal.

Dylai gofal ddarparu profiad diogel a chadarnhaol i bob plentyn a pherson ifanc, ac un sy'n cynnal a hyrwyddo'u hunaniaeth, eu diwylliant a'u crefydd. Dim ond am y cyfnod lleiaf o amser sy'n ofynnol y dylai plant a phobl ifanc gael eu cadw yn y system gofal.

Bydd y Gwasanaethau Plant:

- *Yn sicrhau, os oes rhaid i blentyn/person ifanc fynd i'r system gofal, mai'r ystyriaeth gyntaf fydd eu dychwelyd adref.*
- *Yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth sy'n hyrwyddo ac yn galluogi plant i fyw gartref neu o fewn eu teulu estynedig.*
- *Yn darparu lleoliadau teulu addas a pharhaol i'r plant hynny nad oes modd iddynt ddychwelyd adref neu at deulu estynedig.*

Os oes angen darpariaeth amgen y tu allan i'w teulu ar blant, y ffordd orau o ddiwallu anghenion y mwyafrif fydd mewn teulu amgen a ddarperir gan ofalwyr maeth mewnol. Dylai lleoliadau fod yn ddigon lleol i alluogi plant sy'n derbyn gofal i aros yn eu cymunedau, cynnal eu rhwydweithiau, darparu sefydlogrwydd, a tharfu cyn lleied â phosibl ar eu bywydau. Dylai ceisiadau am leoliadau

gael eu diffinio bob amser yn ôl anghenion y plentyn. Yn Sir Gaerfyrddin mae gennym banel Llety ac Adnoddau sy'n hwyluso trafodaethau rhwng gweithwyr cymdeithasol, darparwyr adnoddau, a'r gwasanaeth maethu, wrth ystyried yr opsiynau i blant sydd ar gyrion gofal.

Mae angen sicrhau bod cynlluniau pwrpasol wedi'u sefydlu ar gyfer plant y mae angen iddynt dderbyn gofal ac y cynhelir adolygiadau effeithiol i alluogi plant i ddychwelyd adref at eu teuluoedd lle bynnag y mae hynny'n bosibl, cyn gynted â phosibl, neu i setlo mewn lleoliadau sefydlog lle nad yw'n bosibl dychwelyd adref. Mae adegau pan fydd aros mewn gofal maeth tymor hir yn opsiwn cadarnhaol i blentyn a dylid cydnabod hynny.

6.1 Dychwelyd adref

Rydym yn cydnabod bod adegau pan fydd rhaid efallai i blant dderbyn gofal am gyfnod byr o amser. Mae'n holl-bwysig ar yr adegau hyn fod ffocws ar ddychwelyd y plentyn i'w gartref cyn gynted â phosibl. Po hiraf y mae plentyn o'i gartref, mae ymchwil yn dangos ei bod yn mynd yn anoddach ei ailsefydlu yno. Mae llawer iawn o ymdrech yn mynd i geisio osgoi chwalfa mewn teuluoedd, ac mae angen yr un faint o ymdrech yn y dasg o ddychwelyd plant i'w cartrefi. Nid oes modd defnyddio llawer o'n gwasanaethau ataliol yn yr achosion hyn oherwydd natur y drefn ariannu. Fodd bynnag, bydd y gwasanaethau hyn yr un mor bwysig o ran cynnal y plentyn yn ei gartref yn y tymor hir ar ôl iddo ddychwelyd adref ag ydynt o ran atal teulu rhag chwalu yn y lle cyntaf.

6.2 Dyfodol Parhaol

Mae gan Sir Gaerfyrddin Bolisi Dyfodol Parhaol clir sy'n sicrhau bod cynlluniau ar gyfer dyfodol parhaol wedi'u sefydlu ar gyfer plant o fewn 4 mis iddynt dderbyn gofal. Cynhelir cyfarfodydd Panel Dyfodol Parhaol yn rheolaidd ynglŷn â phob plentyn sy'n derbyn gofal, i wneud yn siŵr na adewir i bethau lithro. Yng nghyswllt plant sy'n destun Gorchymyn Gofal, ond sydd wedi'u lleoli gartref ers mwy na blwyddyn, mae angen inni ymdrechu i gael y Gorchymyn Gofal wedi'i ddirymu.

6.3 Mabwysiadu

I'r plant hynny na allant ddychwelyd adref, caiff Mabwysiadu ei hyrwyddo ar y cyfle cyntaf fel rhan o'n proses drylwyr i gynllunio dyfodol parhaol. Mae nifer cyson uchel o blant yn ein sir y mae angen lleoliadau mabwysiadu arnynt yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fabwysiadu fel yr opsiwn gorau er sicrhau dyfodol plentyn lle na all fyw gyda'i rieni/berthnasau.

Cafodd Gweithiwr Cymorth i fenywod ei gyflogi mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant ers mis Hydref 2011 i weithio'n uniongyrchol gyda menywod sydd wedi mynd drwy'r broses o gael eu plant wedi'u cymryd oddi arnynt ac wedi'u mabwysiadu. Mae'n darparu cyngor a chymorth a bydd, gobeithio, yn atal unrhyw blant pellach a enir i'r menywod hynny rhag cael eu cymryd oddi arnynt.

Mae'r cymorth hwn wedi gweld canlyniadau cadarnhaol ac wedi cael ei ddisgrifio fel 'gwasanaeth arloesol' gan AGGCC.

6.4 Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae hwn yn opsiwn amgen yn lle rhoi'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, neu ei roi i'w fabwysiadu. Caiff y plentyn ei leoli'n gyfreithlon gyda'r Gwarcheidwaid Arbennig, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol yn aml; ond gyda llawer mwy o ddisgresiwn i benderfynu sut mae diwallu anghenion y plentyn orau, yn cynnwys y trefniadau i gynnal cyswllt â rhieni'r plentyn.

7. I Gloi

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein hymrwymiad i helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd, a thrwy hynny leihau'r angen i blant a phobl dderbyn gofal yn y lle cyntaf neu, os oes rhaid i hynny ddigwydd, osgoi bod mewn gofal yn ddianghenraid, am gyfnod hir. Ers fersiwn gyntaf y strategaeth hon rydym wedi wynebu her y cyni ariannol a'r galw am ragor o arbedion effeithlonrwydd, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwella'r canlyniadau i'r plant a'r teuluoedd rydym ni a'n partneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau iddynt. Mae angen y strategaeth hon â ffocws arnom o hyd i atal plant rhag derbyn gofal yn ddiangen, ac i alluogi'r rhai sy'n derbyn gofal i ddychwelyd adref neu i gael dyfodol parhaol y tu allan i'r system gofal. Ers y strategaeth gyntaf yn 2013 rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal o 271 pan oedd y nifer ar ei uchaf yn 2012 i 217 ddiwedd Rhagfyr 2015. Gwyddom o adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd nad drwy godi'r trothwy y cyflawnwyd hynny; ffrwyth gwaith caled yw a chred gyson nad mynd i ofal, ac yna aros mewn gofal, yw'r canlyniad gorau y gallwn obeithio'i wireddu i blant.